**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

25 Mawrth 2022

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2022**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau i rym ar 26 Mawrth 2022. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac rwy'n bwriadu ei osod, ynghyd â Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, unwaith y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 12 Mai 2022 er mwyn iddo barhau i fod yn effeithiol. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau cyfrifol gyflwyno adroddiad. Gan fod y prif Reoliadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, yn rhinwedd y diwygiadau, i fod i ddod i ben yn ystod Toriad Pasg y Senedd, rwy'n bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r eitem hon o is-ddeddfwriaeth yn y cyfarfod llawn ar 29 Mawrth 2022, sef yr unig gyfle sydd ar gael cyn y Toriad. O ganlyniad, yn anffodus does dim llawer o amser o gwbl i'r pwyllgorau graffu arno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.